# Profi, Olrhain a Diogelu (TTP)
# Y broses yng Nghymru

I helpu llacio cyfyngiadau'r cyfnod clo yng Nghymru, cyflwynwyd system Profi, Olrhain a Diogelu ar 1 Mehefin 2020. Beth mae hynny'n ei olygu? Dyma rai cwestiynau cyffredin i egluro.

**Pam y dylwn i gymryd rhan yn y broses TTP?**
I'r system weithio'n iawn, mae angen i bawb gymryd rhan fel y gellir llacio rhagor o gyfyngiadau'r cyfnod clo, a gallwn ni ddiogelu ein hunain, ein teuluoedd, ffrindiau, a'n cymunedau.

## Profi

**Pwy all gael eu profi?**
Gall unrhyw un sydd â symptomau coronafeirws wneud cais am brawf. Os ydych chi'n meddwl bod gennych chi'r coronafeirws (hyd yn oed pan rydych chi'n aros am ganlyniadau eich prawf) dylech chi hunan-ynysu. Y symptomau yw peswch parhaus newydd, tymheredd uchel neu colli arogl neu flas. Os ydych chi'n dangos unrhyw un o'r symptomau hyn, dylech hunan-ynysu a chael prawf.

**Sut allaf i wneud cais am brawf?**
Gallwch archebu prawf ar-lein ar https://llyw.cymru/gwneud-cais-i-gael-prawf-coronafeirws neu dros y ffôn ar 119 rhwng 7am ac 11pm. Os oes gennych chi broblemau cyfathrebu, efallai byddai'n well gennych chi ffonio 18001 119.

**Beth sy'n digwydd os yw fy mhrawf yn negyddol?**
Nid oes angen i chi barhau i hunan-ynysu. Fodd bynnag, dylech chi ddal ati i ddilyn canllawiau iechyd y cyhoedd i olchi ei dwylo a chadw pellter cymdeithasol.
Gwybodaeth bellach: https://gov.wales/coronavirus

# Olrhain

## Beth os ydw i'n cael prawf positif?

Os ydych chi'n cael canlyniad positif i'ch prawf, bydd '**Swyddog Olrhain**' yn cysylltu â chi. Fel arfer, o'r rhif hwn y daw galwadau: 02921 961133. Bydd y Swyddog Olrhain yn gofyn gyda phwy y cawsoch gyswllt yn ddiweddar. Byddant yn eich helpu trwy'r broses ac yn egluro pa wybodaeth y mae angen i chi ei darparu. Cofiwch bod yn rhaid i chi hunan-ynysu os ydych chi'n cael prawf positif.

*Sylwch y bydd Swyddog Olrhain ond yn cysylltu â chi os byddwch chi'n cael prawf positif a byddan nhw byth yn gofyn am wybodaeth ariannol gennych chi nac yn ceisio gwerthu rhywbeth i chi.*

## Beth maen nhw'n ei olygu gyda chysylltiadau?

Mae'n golygu cyswllt corfforol nid rhywun rydych wedi siarad â nhw dros y ffôn neu ar-lein. Mae'n rhywun rydych:

- wedi bod o fewn 1 metr iddynt am 1 munud neu hirach neu
- wedi bod o fewn 2 metr iddynt am 15 munud neu
- wedi teithio gyda mewn cerbyd neu awyren.

*Dalier sylw: fyddwch chi ddim yn gwybod pwy yw'r bobl hyn i gyd, felly byddant hefyd yn gofyn ble y buoch chi. Byddant ond yn gofyn am fanylion cyswllt y bobl rydych chi'n eu hadnabod. Bydd y Swyddog Olrhain cyswllt yn eich helpu chi. (Nid eich cyfrifoldeb chi fydd hyn)*

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd Swyddog Olrhain yn galw'r bobl rydych chi wedi cael cysylltiad â nhw.
Dim ond os oes gennych brawf positif y cysylltir â'ch cysylltiadau. Fel arfer, o'r rhif hwn y daw galwadau: 02921 961133.

## A fydd y Swyddog Olrhain cysylltiadau yn datgelu pwy ydw i i'm cysylltiadau?

Byddant ond yn dweud pwy ydych chi os ydych chi'n rhoi caniatâd iddynt wneud hynny.

## A fydd modd i mi roi manylion fy nghysylltiadau ar-lein?

Bydd, mae system ar-lein newydd - gwasanaeth Prawf, Olrhain, Diogelu GIG Cymru - y gallwch ei defnyddio os ydych chi eisiau.

## Beth sy'n digwydd i fy ngwybodaeth?

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel yn yr un ffordd ag unrhyw wybodaeth iechyd.

## Beth os ydw i'n methu galwad y Swyddog Olrhain cysylltiadau?

Os byddwch chi'n ffonio'r rhif yn ôl, byddwch yn cyrchu neges wedi'i recordio gan Wasanaeth Prawf, Olrhain ac Amddiffyn GIG Cymru. Byddan nhw'n eich galw chi'n ôl.

## Os ydw i'n poeni beth alla i ei wneud?

Gall y Swyddog Olrhain cysylltiadau roi cyngor a chyfarwyddyd i chi, yn arbennig os oes angen cefnogaeth ychwanegol arno chi neu eich cysylltiadau.

# Diogelu

**Beth sydd angen i mi ei wneud os byddaf yn cael prawf positif?**
Os byddwch chi'n cael prawf positif rhaid i chi hunan-ynysu a dilyn y Canllawiau coronafeirws https://llyw.cymru/hunanynysu-canllawiau-aros-gartref-i-aelwydydd-coronafeirws-posibl.

Cofiwch, os ydych chi'n teimlo na fedrwch chi ymdopi gyda'ch symptomau adref neu fod eich symptomau'n gwaethygu, ewch at wasanaeth coronafeirws ar-lein GIG 111 Cymru neu ffonio 111 a gofyn am help. Os yw'n argyfwng meddygol, ffoniwch 999.

**Beth os bydd angen help ychwanegol arnaf?**
Bydd y Swyddog Olrhain yn rhoi manylion i chi am yr help sydd ar gael yn eich ardal a sut y cewch chi fynediad ato. Cofiwch holi am gymorth os ydych chi'n teimlo y bydd ei angen arnoch chi, yn arbennig os ydych chi'n meddwl y bydd yn anodd i gael mynediad at unrhyw beth heb gymorth – ni fydd y Swyddog Olrhain yn gwybod oni bai eich bod yn dweud wrthynt.

**Pryd ga i fynd allan unwaith eto?**
Pan fyddwch chi ac unrhyw un yn eich aelwyd wedi cwblhau eich cyfnodau hunan-ynysu, gallwch chi adael eich cartref.

**Mae esboniad manylach am Profi, Olrhain a Diogelu ar gael ar https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-eich-cwestiynau**

**Cofiwch ddilyn y rheolau coronafeirws bob amser**

- gweithio o adref os gallwch chi
- gwisgo gorchudd wyneb lle bo angen
- golchwch eich dwylo yn rheolaidd
- aros 2 fetr oddi wrth unrhyw un nad ydych chi'n byw gyda nhw.

Mwy o wybodaeth: https://llyw.cymru/coronafeirws

**Wendy Thomas**
Arweinydd Proffesiynol
Cenedlaethol Awtistiaeth
**Mai 2021**

AwtistiaethCymru.org
Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol
National Autism Team
AutismWales.org

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG42857